**Rhif: 6**

| | |
| --- | --- |
| **Cais Rhif:** | **C16/1556/18/LL** |
| **Dyddiad Cofrestru:** | **12/12/2016** |
| **Math y Cais:** | **Llawn - Cynllunio** |
| **Cymuned:** | **Llanddeiniolen** |
| **Ward:** | **Penisarwaun** |
| **Bwriad:** | **Trosi adeiladau presennol yn dair uned wyliau hunan-wasanaeth** |
| **Lleoliad:** | **Ty Gwyn, Waun, Penisarwuan, Caernarfon, LL55 3PW** |
| **Crynodeb o'r Argymhelliad:** | CANIATÁU GYDAG AMODAU |

**1. Disgrifiad:**

1.1 Mae’r cais hwn ar gyfer trosi tri adeilad amaethyddol gynt, sydd 'nawr mewn defnydd atodol i ddefnydd preswyl Tŷ Gwyn gerllaw, yn dair uned wyliau hunanwasanaeth.

1.2 Saif yr adeiladau mewn ardal wledig gerllaw ar gyrion clwstwr o dai y tu allan i ffin ddatblygu pentref Penisarwaun fel y'i diffinnir gan Gynllun Datblygu Unedol Gwynedd. Saif y safle o fewn Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Dinorwig.

1.3 Mae'r bwriad yn cynnwys yr elfennau canlynol

- Trosi ysgubor yn llety hunan gynhaliol ar steil "byncws" gydag ardal gysgu agored ar gyfer 6 o bobl ar y llawr cyntaf a chyfleusterau megis lolfa / cegin, ystafelloedd ymolchi a storfeydd ar y llawr gwaelod
- Trosi adeilad unllawr yn llety un ystafell "en suite" yn cynnwys gwely ac ardal coginio
- Trosi adeilad deulawr yn llety gyda llofft ar y llawr cyntaf a chyfleusterau byw ar y llawr gwaelod. Bwriedir gosod balconi llawr cyntaf ar gefn yr adeilad hwn (wyneb de ddwyreiniol).
- Creu gofod parcio ar gyfer 8 car, gydag wyneb o lechi mâl
- Creu dwy storfa biniau newydd

1.4 Darparwyd yr wybodaeth ychwanegol isod i gefnogi'r cais :

- Adroddiad Arolwg Strwythurol
- Adroddiad Arolwg Rhywogaethau a'u Gwarchodir
- Datganiad ynghylch Ystyriaethau Dylunio
- Manylebau Adeiladu

1.5 Fe ddaw'r cais hwn gerbron y Pwyllgor oherwydd y derbyniwyd tair neu ragor gohebiaeth yn groes i argymhelliad y Swyddog.

**2. Polisïau Perthnasol:**

2.1 Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ceisiadau yn unol â’r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaeth faterol cynllunio yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol, a’r Cynllun Datblygu Unedol.

2.2 Yn sgil Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 mae'n ofynnol i'r Cyngor ymgymryd â datblygu cynaliadwy yn ogystal â chymryd pob cam rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r amcanion datblygu cynaliadwy (neu lesiant). Mae'r adroddiad hwn wedi’i baratoi gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu gynaliadwy', fel sydd wedi’i ddatgan yn Neddf 2015, ac wrth ffurfio'r argymhelliad mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau. Ystyrir na fyddai unrhyw effaith sylweddol nac annerbyniol ar gyflawni’r amcanion llesiant o ganlyniad i'r argymhelliad arfaethedig.

## 2.3 Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd 2009:

POLISI B12 - GWARCHOD TIRWEDDAU, PARCIAU A GERDDI HANESYDDOL
Gwarchod tirweddau, parciau a gerddi ddiddordeb hanesyddol arbennig yng Nghymru rhag datblygiadau a fyddai'n achosi niwed arwyddocaol i'w cymeriad, eu hedrychiad neu eu gosodiad.

POLISI B20 - RHYWOGAETHAU A'U CYNEFINOEDD SY'N BWYSIG YN RHYNGWLADOL A CHENEDLAETHOL
Gwrthod cynigion sy'n debygol o achosi aflonyddwch neu niwed annerbyniol i rywogaethau a warchodir a'u cynefinoedd oni bai y gellid cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i ddiogelu nodweddion cydnabyddedig y safle.

POLISI B23 - MWYNDERAU - Diogelu mwynderau'r gymdogaeth leol drwy sicrhau bod rhaid i gynigion gydymffurfio a chyfres o feini prawf sy'n anelu i warchod nodweddion cydnabyddedig mwynderau'r ardal leol.

POLISI B32 - YCHWANEGU AT DDŴR WYNEB
Gwrthod cynigion na fyddant yn cynnwys mesurau lleihau llif neu fesurau lliniaru priodol fydd yn arwain at ostwng maint a graddfa'r dŵr wyneb fyddai'n cyrraedd ac yn llifo i afonydd a chyrsiau dŵr eraill.

POLISI C4 - ADDASU ADEILADAU I'W HAIL-DDEFNYDDIO
Cymeradwyir cynigion i addasu adeiladau i'w hailddefnyddio yn lle eu dymchwel os gellir cydymffurfio gyda meini prawf penodol sy'n ymwneud ag addasrwydd yr adeilad, ystyriaethau gweledol, dyluniad ac effaith ar fywiogrwydd trefi a phentrefi cyfagos.

POLISI CH33 - DIOGELWCH AR FFYRDD A STRYDOEDD
Caniateir cynigion datblygu os gellir cydymffurfio gyda meini prawf penodol sydd yn ymwneud a'r fynedfa gerbydau, safon y rhwydwaith ffyrdd presennol a mesurau tawelu traffig.

POLISI CH36 – CYFLEUSTERAU PARCIO PREIFAT - Gwrthodir cynigion am ddatblygiadau newydd, ehangu datblygiadau presennol neu newid defnydd os na ddarperir lle i barcio cerbydau oddi ar y stryd yn unol â chanllawiau parcio cyfredol y Cyngor, gan roi ystyriaeth i hygyrchedd gwasanaeth cludiant cyhoeddus, y gallu i gerdded a beicio o safle a phellter y safle at faes parcio cyhoeddus.

POLISI D15 - LLETY GWYLIAU HUNAN-WASANAETH
Caniatáu cynigion i ddatblygu llety gwyliau hunanwasanaeth parhaol newydd, addasu adeiladau presennol neu i estyn sefydliadau presennol os yw dyluniad, gosodiad a gwedd y datblygiad o safon uchel ac os gellir cydymffurfio gyda meini prawf yn ymwneud gyda lleoliad a graddfa'r datblygiad, effaith ar y stoc tai parhaol; ardaloedd preswyl ac argaeledd y math yma o lety gwyliau.

CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL - LLETY GWYLIAU

## 2.4 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn. (Fersiwn Cyfansawdd yn cynnwys Newidiadau Materion sy'n Codi, Ionawr 2017)

POLISI PCYFF 1: MEINI PRAWF DATBLYGU

POLISI PCYFF 2: DYLUNIO A SIAPIO LLE

POLISI STRATEGOL PS 6: LLINIARU EFFEITHIAU NEWID HINSAWDD AC ADDASU IDDYNT

POLISI STRATEGOL PS 11: YR ECONOMI YMWELWYR

POLISI TWR 2: LLETY GWYLIAU

POLISI AT 1: ARDALOEDD CADWRAETH, SAFLEOEDD TREFTADAETH Y BYD A THIRWEDDAU, PARCIAU A GERDDI HANESYDDOL COFRESTREDIG

POLISI TRA 2: SAFONAU PARCIO

**2.5 Polisïau Cenedlaethol:**

Polisi Cynllunio Cymru : Argraffiad 9, Tachwedd 2016

Nodyn Cyngor Technegol 6 - Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (2010)
Nodyn Cyngor Technegol 13 - Twristiaeth (1997)

**3. Hanes Cynllunio Perthnasol:**

C96A/0266/18/CL : Estyniad - Caniatawyd 18/09/96

3/18/505 : Estyniad deulawr - Caniatawyd 07/07/83

**4. Ymgynghoriadau:**

| | |
|---|---|
| Cyngor Cymuned/Tref: | Dim gwrthwynebiad<br>Amlygu bod y ffordd at y safle yn gul a gall rhagor o drafnidiaeth creu problemau |
| Uned Trafnidiaeth: | Dim gwrthwynebiad<br>Cadarnhau, er bod cynnydd yn y lefelau traffig yn bosibl, ni fyddai'r cynnydd hwnnw'n afresymol nag yn niweidiol i'r rhwydwaith ffyrdd lleol.<br>Argymell amodau safonol |
| Dwr Cymru : | Sylwadau<br>Gofyn am amod i beidio gadael i ddŵr wyneb / dŵr draenio tir gysylltu i'r garthffos gyhoeddus<br>Nodiadau cyngor safonol ar gyfer yr ymgeisydd<br>Cadarnhad bod cynhwysedd yn y system garthffosiaeth ar gyfer tair uned drigiannol ychwanegol |
| Cyfoeth Naturiol Cymru : | Sylwadau<br>Gofyn am amod er sicrhau y dilynir argymhellion yr Adroddiad Rhywogaethau a'u Diogelir |
| Uned Bioamrywiaeth : | Sylwadau<br>Derbyn casgliadau'r Adroddiad Rhywogaethau a'u Diogelir a'r cynigion ar gyfer darparu clwydfan ar gyfer ystlumod.<br>Gofyn am amodau er diogelu ystlumod |

Adran Draenio Tir : Dim gwrthwynebiad
Nid yw'n ymddangos fod y cais yn mynd i gael effaith ar unrhyw gwrs dŵr.
Nid yw'r Cyngor yn ymwybodol o unrhyw drafferthion llifogydd yn yr ardal yma.

Ymgynghoriad Cyhoeddus: Rhoddwyd rhybudd ar y safle a gwybyddwyd trigolion cyfagos. Mae'r cyfnod hysbysebu wedi dod i ben a derbyniwyd gohebiaeth yn gwrthwynebu'r datblygiad am y rhesymau cynllunio dilys isod :

- Pryderon ynghylch diogelwch ac anhwylustra ar y ffordd fynediad cul
- Nid ydyw'r trefniant parcio'n ddiogel i ddefnyddwyr y ffordd
- Nid ydyw'r system garthffosiaeth yn gallu ymdopi gyda rhagor o fewnbwn
- Bod draeniad y tir yn wael iawn gan olygu ei fod yn wlyb neu'n ddirlawn yn rheolaidd
- Bod gorddarpariaeth o lety gwyliau eisoes yn yr ardal
- Pryderon ynghylch effeithiau posib sŵn ac ymyrraeth ar drigolion cyfagos

Derbyniwyd yn ogystal y sylwadau isod nad ydynt yn ystyriaethau cynllunio ar gyfer y cais hwn :

- Pryder ynghylch y broses ymgynghori ynglŷn â'r cais
- Bod niwed strwythurol yn cael ei achosi i eiddo preifat oherwydd trafnidiaeth ar y ffordd
- Ni fydd buddion i'r gymuned leol yn deillio o'r datblygiad
- Bod cais am dai yn y cyffiniau wedi ei wrthod yn y gorffennol oherwydd anaddasrwydd y rhwydwaith ffyrdd leol

## 5. Asesiad o'r ystyriaethau cynllunio perthnasol:

### Egwyddor y datblygiad

5.1 Mae Polisi C4 y CDU yn gefnogol i addasu ac ail-ddefnyddio adeiladau cyn belled a bod y cynnig yn cwrdd â chyfres o feini prawf. Ystyrir bod y cynnig hwn yn cwrdd â'r meini prawf hyn am y rhesymau canlynol :

- Dengys yr adroddiad strwythurol a gyflwynwyd gyda'r cais bod yr adeiladau yn rhai parhaol a strwythurol gadarn
- Dengys yr adroddiad strwythurol bod yr adeiladau yn addas ar gyfer defnydd anheddol
- Ni fyddai'r man newidiadau i'r olwg allanol yn niweidio edrychiad yr adeiladau ac fe fyddai parhau i'w defnyddio at bwrpas economaidd cadarnhaol yn fodd o amddiffyn adeiladau gwledig traddodiadol.
- Gellid gosod amodau er sicrhau na fyddai unrhyw newid niweidiol yn natur y gweithgaredd allanol, a
- Ni fyddai'r datblygiad yn arwain at wasgaru gweithgareddau mewn modd a fyddai'n niweidiol i fywiogrwydd trefi a phentrefi.

5.2 Mae Polisi D15 yn cymeradwyo cynigion i addasu adeiladau yn llety gwyliau hunanwasanaeth parhaol os yw dyluniad, gosodiad a gwedd y datblygiad o safon uchel ac os mae'r cynnig yn cwrdd â chyfres o feini prawf. Fe ystyrir bod y dyluniadau a gynhigir yma yn safonol ac yn addas ar gyfer yr adeiladau a hefyd bod y datblygiad yn cwrdd â'r meini prawf oherwydd :

- Bod y raddfa'n addas ar gyfer y safle
- Ni fydd colled o'r stoc dai parhaol
- Ni fydd niwed i gymeriad preswyl yr ardal
- Ni fydd yn arwain at grynhoi gormod o lety o'r math. Mae Canllaw Cynllunio Atodol - Llety Gwyliau yn gosod trothwy na ddylid caniatáu rhagor o lety gwyliau hunan arlwyo lle mae rhagor na 10% o'r stoc dai eisoes yn unedau gwyliau, nid oes unrhyw dystiolaeth bod hyn yn wir am ardal cymuned Llanddeiniolen.

5.3 Fe ystyrir felly bod y cynnig yn cwrdd â gofynion Polisïau C4 a D15 y CDU ac felly ei fod yn dderbyniol mewn egwyddor dan bolisïau'r cynllun cyfredol.

5.4 Mae'n ofynnol gwneud penderfyniadau am geisiadau cynllunio yn unol â'r cynllun datblygu a fabwysiadwyd, oni bai bod ystyriaethau perthnasol eraill yn nodi fel arall. Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd (2001 - 2016) yw'r 'Cynllun Datblygu' ar hyn o bryd a bydd Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (CDLl ar y Cyd) yn disodli'r CDU fel y 'cynllun datblygu' ar ôl iddo gael ei fabwysiadu. Y gobaith yw y bydd y CDLl ar y Cyd yn cael ei fabwysiadu yn ystod Gorffennaf 2017.

5.5 Wrth ddelio gydag unrhyw gais cynllunio y prawf statudol ddylai fod yr ystyriaeth gyntaf ar bob achlysur, h.y. mae'n ofynnol gwneud penderfyniadau am geisiadau cynllunio yn unol â'r cynllun datblygu, oni bai bod ystyriaethau perthnasol eraill yn nodi fel arall. Mae'r CDLl ar y Cyd yn ystyriaeth cynllunio berthnasol rŵan ar gyfer diben rheoli datblygu - gweler paragraff 3.1.3 Polisi Cynllunio Cymru sy'n datgan:
*"Gallai ystyriaethau perthnasol gynnwys yr amgylchiadau presennol, polisïau mewn cynllun datblygu sydd wrthi'n cael ei baratoi a pholisïau cynllunio Llywodraeth Cymru. Dylai pob cais gael ei ystyried mewn perthynas â pholisïau cyfredol...".*

5.6 Er bod nifer o bolisïau wedi cael eu trafod yn fanwl yn ystod Gwrandawiadau'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn, ni fyddwn yn gwybod gyda sicrwydd beth fydd cynnwys y Cynllun tan fydd yr Arolygydd yn cyflwyno ei adroddiad rhwymol.

5.7 Mae paragraff 2.14.1 Polisi Cynllunio Cymru yn datgan:
*"...wrth ystyried faint o bwys i'w osod ar bolisïau penodol mewn CDLl sydd ar y gweill sy'n berthnasol i gynnig neilltuol, bydd angen i awdurdodau cynllunio lleol ystyried yn ofalus y dystiolaeth waelodol a'r cefndir i'r polisïau. Gall polisi cynllunio cenedlaethol hefyd fod yn ystyriaeth berthnasol yn yr amgylchiadau hyn."*

5.8 Yn yr achos hwn, mae'r Polisïau CDLl a'u rhestrir yn 2.4 uchod yn berthnasol a, gan i'r polisïau hyn fod yn gyson gyda pholisïau'r Cynllun Datblygu Unedol, fe ystyrir bod argymhelliad yr adroddiad hwn yn gyson gyda'r polisi allddyfodol.

**Mwynderau cyffredinol a phreswyl**

5.9 Fe ystyrir y byddai'r cynllun hwn, er yn newid ychydig ar wedd allanol yr adeiladau, yn helpu amddiffyn cymeriad yr adeiladau yn yr hirdymor a thrwy hynny'n amddiffyn cymeriad gweledol yr ardal, sydd wedi ei leoli o fewn Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol.

5.10 Mae'n anorfod y byddai peth sŵn ac ymyrraeth yn deillio o'r safle ond, o ystyried bod y safle ar gyrion clwstwr o 21 tŷ presennol, ni ystyrir y byddai'r ymyrraeth sy'n deillio o dair uned wyliau yn achosi niwed arwyddocaol ychwanegol i fwynderau trigolion. Yn ogystal, fe ystyrir bod y pellter o'r unedau gwyliau at y tŷ annedd agosaf, sef dros 30m, yn golygu na fyddent yn debygol o gael effaith uniongyrchol ar drigolion yr eiddo hynny. Mae bwriad codi balconi ar gefn yr uned ddeheuol ond, oherwydd ei bellter o'r eiddo preswyl agosaf a gogwydd yr adeiladau hynny ni ystyrir bydd gor-edrych niweidiol yn deillio o'r balconi hwnnw.

5.11 Fe fyddai peth effaith weledol yn deillio o'r ardaloedd parcio newydd gan olygu bydd peth cynnydd yn natur "drefol" y lleoliad, fodd bynnag, wrth ystyried natur y safle ger clwstwr o dai presennol, ni ystyrir y buasai hyn yn annisgwyl nac yn niweidiol i fwynderau gweledol.

5.12 Fe nodi bod pryder wedi codi ynghylch effaith posibl y datblygiad ar ansawdd bywyd trigolion lleol ond ni ystyrir y byddai'n rhesymol ystyried defnyddio tri adeilad at ddefnydd preswyl (dros dro) ynddo'i hun yn niweidiol i fwynderau cymdogion.

5.13 Ni ystyrir y byddai effaith y datblygiad hwn yn niweidiol i fwynderau preifat, mwynderau'r gymdogaeth nac i fwynderau gweledol cyffredinol, gan gynnwys ansawdd y Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol, ac felly fe ystyrir bod y cais yn cwrdd â gofynion polisïau B12 a B23 y Cynllun Datblygu Unedol.

**Materion trafnidiaeth a mynediad**

5.14 Mae polisi CH36 o’r Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd yn ymwneud â chyfleusterau parcio ceir preifat. Bwriedir creu mannau parcio pwrpasol ar gyfer 8 cerbyd (ychwanegiad o 5 ar y ddarpariaeth bresennol). Mae'r ddarpariaeth hon yn dderbyniol gan yr Uned Drafnidiaeth. Yn ogystal, mae'r Uned Trafnidiaeth yn derbyn, er byddai'r datblygiad yn debygol o arwain at ychwanegiad mewn lefelau traffig ar y rhwydwaith ffordd leol, ni fyddai'r cynnydd hwnnw yn gynnydd afresymol nag yn niweidiol i ddiogelwch y rhwydwaith ffyrdd. Fe ystyrir felly bod y bwriad yn dderbyniol dan Bolisïau CH33 ac CH36 y CDU.

**Materion llifogydd a draenio**

5.15 Derbyniwyd cryn ohebiaeth gan wrthwynebydd yn dangos tystiolaeth o ddigwyddiadau llifogydd hanesyddol yn yr ardal gan gynnwys honiadau nad ydyw'r system garthffosiaeth leol yn ddigonol i ymdopi ag unrhyw gynnydd mewn defnydd. Mae Dŵr Cymru wedi cadarnhau bod capasiti yn y system garthffos gyhoeddus i gymryd carthffosiaeth o dair uned ychwanegol ar yr amod nad oes dŵr wyneb neu ddŵr draenio tir yn llifo i'r system. Yn ogystal ni chododd Cyfoeth Naturiol Cymru nag Adran Draenio Tir Ymgynghoriaeth Gwynedd wrthwynebiad i'r datblygiad. Ni fydd estyniadau i'r adeiladau ac fe fydd wyneb yr ardaloedd parcio o lechi mâl rhydd ac felly ni fydd cynnydd yn yr arwyneb caled ar y ddaear. O'r herwydd nid ydyw'r datblygiad yn debygol o waethygu problemau draenio dŵr mewn unrhyw ffordd. Er gwaetha'r uchod fodd bynnag, gan i'r ffurflen gais awgrymu y gwaredir dŵr wyneb drwy "soakaway" ac er sicrhad y gweithredir y datrysiad orau o safbwynt ymdrin â dŵr wyneb / tir, argymhellir y buasai’n briodol gosod amod i gytuno ar gynllun draenio dŵr wyneb a dŵr tir cyn dechrau gwaith ar y datblygiad. O weithredu hynny fe gredir bod y cais yn cwrdd gyda gofynion Polisi B32 y CDU.

**Materion bioamrywiaeth**

5.16 Dengys yr arolwg ystlumod bod ystlumod yn defnyddio'r adeiladau gan gynnwys yr ystlum hirglust (*Plecotus auritus*), yr ystlum lleiaf *(Pipisrellus pipistrellus),* yr ystlum lleiaf uchelsain *(Pipistrellus pygmaeus)* ag ystlum Natterer *(Myotis nattereri)*. Yn ogystal 'roedd tystiolaeth bod gwenoliaid yn defnyddio un o'r adeiladau. Mae'r adroddiad yn cynnig mesurau lliniaru ar gyfer rhywogaethau a'u gwarchodir ac mae'r rhain yn dderbyniol gan yr Uned Bioamrywiaeth a CNC. O osod amodau priodol ar y caniatâd, fe ystyrir bod y cynnig felly yn cwrdd â gofynion Polisi B20 y CDU.

**Yr ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus**

5.17 Derbyniwyd sylwadau ynghylch y cais hwn gyda'r pryderon perthnasol pennaf yn ymwneud a materion priffyrdd, llifogydd ac effeithiau mwynderol posibl. Fe ystyrir bod y drafodaeth uchod yn rhoi sylw priodol i'r materion hyn.

## 6. Casgliadau:

6.1 Ystyrir fod y bwriad i drosi'r tri adeilad yn dair uned wyliau hunangynhaliol yn dderbyniol o safbwynt y polisïau perthnasol a nodir uchod ac ni ystyrir y byddai'n cael effaith niweidiol andwyol ar fwynderau'r preswyl yr ardal nag ar ansawdd y Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol ddynodedig. Yn ogystal, ystyrir bod lleoliad a ffurf y datblygiad yn dderbyniol ac yn cydweddu a chyd-destun ei leoliad. Wedi rhoi ystyriaeth lawn i'r holl faterion cynllunio perthnasol a'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd, fe ystyrir y datblygiad yn un addas a derbyniol ar gyfer y safle a'i fod yn cydymffurfio gyda'r polisïau a chanllawiau lleol a chenedlaethol a nodir.

## 7. Argymhelliad:

7.1 Caniatáu – amodau

1. Pum mlynedd
2. Yn unol â'r cynlluniau
3. Deunyddiau'r balconi i'w cytuno
4. Defnydd gwyliau yn unig/cadw cofrestr
5. Tynnu hawliau datblygiad a ganiateir
6. Amod bioamrywiaeth
7. Angen cytuno cynllun draenio dŵr wyneb a dŵr tir
8. Creu mannau parcio cyn preswylio'r unedau gwyliau